



Adroddiad Arolygu ar gyfer

21 Ffordd Garnedd

21 Ffordd Garnedd
Y Felinheili
LL56 4QY

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/01/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Y darparwr cofrestredig ar gyfer 21 Ffordd Garnedd yw Prestwood Care Homes Ltd, sy'n rhan o CareTech Community Services Ltd. Mae'r gwasanaeth yn darparu llety, gofal personol a chymorth i hyd at 2 oedolyn dros 18 mlwydd oed sydd ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal breswyl o'r Marina yn y Felinheli, yn sir Gwynedd. Nid oes rheolwr wedi'i benodi ar hyn o bryd. Charlotte Smith yw'r unigolyn cyfrifol.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae gan y bobl sy'n byw yn 21 Ffordd Garnedd gydberthnasau da â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, am fod amgylchiadau unigol y bobl yn cael eu hystyried, ac mae'r bobl yn deall ac yn gwybod pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn defnyddio'r rhain i gyflawni llesiant. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau personol wedi cael eu hadolygu ar yr adegau gofynnol. Dylid adolygu'r weithdrefn ar gyfer sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn modd diogel. Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer y bobl ac mae modd iddynt bersonoli eu hamgylchedd, ond nid oedd y staff wedi cofnodi gwiriadau iechyd a diogelwch yn gyson.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn darparu nifer priodol o staff addas sy'n cael hyfforddiant i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Fodd bynnag, nid yw'r uwch-reolwyr yn rhoi digon o sylw i arferion, prosesau a chymorth staff. Mae angen gwneud gwelliannau i'r systemau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA), a chaiff gwelliannau eu hystyried mewn arolygiadau dilynol.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran 5 o'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i ddarparwyr y gwasanaeth eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r argymhellion i wella safon y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

Penodi rheolwr, adolygu cynlluniau personol ac asesiadau risg unigol, prosesau sicrhau ansawdd, rhoi meddyginiaeth ac adolygu'r rhestrau gwirio amgylcheddol.

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Mae hawliau a hawliadau'r bobl yn cael eu cynnal, ond nid oedd y cynlluniau personol wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfredol. Gallant fynegi eu dymuniadau a'u barn ac mae ganddynt ddewisiadau. Roedd y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â'u teuluoedd. Ni welsom gynllun personol a oedd mewn iaith a fformat y gallai'r unigolyn ei ddeall. Dywedodd aelod o'r staff a pherson wrthym fod dogfen 'Fy Nghynllun' wedi cael ei llunio ar y cyd â'r person, ond nid oedd hon ar gael yn y ffeiliau a welsom. Roedd modd i'r bobl bersonoli eu hamgylchedd, roeddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau, ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a pharatoi prydau. Daethom i'r casgliad bod y bobl yn cael cyfleoedd i leisio eu barn, bod y staff yn gwrando arnynt a bod ganddynt rywfaint o reolaeth dros eu bywydau beunyddiol, ond mae angen sicrhau bod dogfennaeth ar waith a'i bod yn cael ei hadolygu yn unol â gofynion y rheoliadau.

Mae arferion a phrosesau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Roedd hyfforddiant ar ddiogelu a dulliau rheoli ymddygiad yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod sefydlu, ac roedd cyrsiau gloywi blynyddol wedi cael eu cynnal. Roedd asesiadau risg i leihau'r risg i unigolion ar waith ac roeddent yn cynnwys gwypodaeth ddigonol i'r staff. Fodd bynnag, nid oeddent wedi cael eu hadolygu ar yr adegau gofynnol. Roedd prosesau recriwtio a fetio cadarn wedi cael eu dilyn. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael gafael ar bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn eu galluogi i ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus am y prosesau y dylent eu dilyn pe bai pryder. Mae prosesau priodol ar waith i leihau risgiau a diogelu'r bobl sy'n byw yn y cartref, ond nid oedd gan y staff fynediad at asesiadau risg cyfredol.

Mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Gwelsom fod y staff gofal yn fedrus ac yn barchus. Ar y cyfan, roedd y tîm rheoli wedi sicrhau bod y lefelau staffio yn ddigonol i sicrhau lefelau staffio priodol, ond gwelsom, wrth edrych ar y cofnodion, nad oedd un person wedi cael gofal yn ystod y bore ar un achlysur. Roedd amgylchedd y gwasanaeth yn gartrefol, yn lân gyda dodrefn a chyfarpar addas, a oedd yn agwedd gadarnhaol ar gyfer llesiant yr unigolion. Roedd y bobl yn cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau iechyd ac roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu pan oedd angen. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael eu hawdurdodi i roi meddyginiaeth, ac roedd dryswch wedi bod ynglŷn â'r dos cywir o feddyginiaeth i un person. Caiff y bobl eu hannog i fod yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol sy'n hybu llesiant y bobl, ond nid oedd y trefniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn addas.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu. Yn ôl y datganiad o ddiben, mae'r gwasanaeth yn cyflogi tri aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Gwelsom un

aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn ystod yr ymweliadau arolygu, ac roedd y rheolwr cyflenwi hefyd yn siarad Cymraeg. Dywedodd y rheolwr cyflenwi wrthym y gellid defnyddio'r staff sy'n siarad Cymraeg i weithio gydag unigolion a oedd am gael gwasanaeth Cymraeg. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

2. Gofal a Chymorth

Ein canfyddiadau

Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol a gofalgar â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin â pharch ac urddas. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom aelod o'r staff yn cyfathrebu ag unigolyn â pharch a hiwmor, ac roedd eu cydberthynas yn un gadarnhaol iawn. Roedd cynlluniau personol y bobl yn cynnwys cynlluniau cymorth unigol a oedd yn rhoi gwybodaeth am gyfathrebu; bywyd beunyddiol; cyllid; cyswllt teuluol a chydberthnasau; ymddygiadau ac iechyd corfforol. Roedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, a oedd yn nodi risgiau a strategaethau posibl neu wirioneddol. Roedd strategaethau i leihau risg wedi cael eu cwblhau hefyd. Fodd bynnag, nid oed y dogfennau hyn wedi cael eu hadolygu ers mis Mawrth 2019. Ni all y bobl fod yn hyderus bod gan y staff gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y darperir gofal iddynt er mwyn diwallu eu hanghenion.

Gwelsom fod proffil un dudalen ar gael ond nad oedd dyddiad arno ac nid oedd cynllun iechyd yn y ffeil, ac ni welsom fod gan y bobl gynllun personol cyfredol a oedd mewn fformat ac iaith a oedd yn addas ar eu cyfer, nac yn cynnwys eu barn, eu dymuniadau na'u teimladau. Dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo bod pobl yn gwranddo arno, ac roedd yn hoffi nifer o'r staff a oedd yn gweithio gydag ef. Dywedodd ei fod yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod i'r staff a'r rheolwr cyflenwi am ei ddymuniadau. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu codi materion, ond ni allwn fod yn siŵr yr ymgynghorir â nhw yn rheolaidd am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, nac ychwaith a oedd yn staff yn eu holi'n gyson am eu dymuniadau a'u barn am y gofal y maent yn ei gael neu yr hoffent ei gael.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a'u bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban a diogelu ac y byddent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon pe bai angen. Roedd y staff wedi'u hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu gofal a chymorth gan ddefnyddio dull rheoli ymddygiad penodol. Gwelsom fod gan y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae trefniadau ar waith i fonitro, cynnal a hyrwyddo iechyd corfforol a llesiant emosiynol y bobl. Roedd y bobl wedi'u cofrestru â meddyg teulu, deintydd ac optegydd. Roedd y bobl yn hyrwyddo bwyta'n iach, ac roedd y bobl yn cael eu hannog i fwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Roedd llesiant emosiynol yn cael ei flaenoriaethu ac roedd cyfathrebu da wedi bod rhwng y cartref a gwasanaethau therapiwtig. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael eu hawdurdodi i roi meddyginiaeth, ac roedd staff o gartrefi eraill wedi cael eu galw i helpu. Roedd hyn wedi arwain at ddryswch ymysg y staff ar un achlysur, ac nid oedd un person wedi cael ei ddos ar yr adeg ofynnol. Hefyd, roedd dryswch wedi codi pan oedd y fferyllfa wedi rhoi'r

cofnodion meddyginiaeth anghywir i'r cartref; roedd aelod o'r staff wedi newid y cofnod ond roedd dos y botel wedi aros yr un fath. Mae'r bobl yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant yn barhaus. Fodd bynnag, gwelsom fod angen mynd i'r afael ag arferion mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau mewn modd diogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

3. Yr Amgylchedd

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn cartref glân sy'n darparu amgylchedd wedi'i bersonoli. Fflat dwy ystafell ar y llawr cyntaf yw'r cartref sydd wedi'i leoli ar ystad dai preswyl. Roedd y fflat yn cynnwys dwy ystafell wely ac ardal fwyta/lolfa/cegin agored, a oedd yn lân ac wedi'i dodrefnu'n addas ac yn gyfforddus. Wrth gerdded o gwmpas y cartref, gwelsom fod yr ystafell ymolchi a'r ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus a bod y dodrefn, y ffitiadau a'r gosodiadau o ansawdd a chyflwr da. Dywedodd un person wrthym ei fod yn hoffi ei ystafell wely a'i fflat, a'i fod wedi gallu addurno a phersonoli'r lle yn ôl ei chwaith ei hun. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd cyfforddus sy'n hyrwyddo eu llesiant ac sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Roedd risgiau wedi cael eu nodi a'u lleihau gymaint â phosibl ar gyfer yr amgylchedd, ac roedd asesiadau wedi cael eu hadolygu. Roedd y cofnodion a archwiliwyd yn cadarnhau bod gwiriadau o'r boeler, y dyfeisiau trydanol a'r cyfarpar diogelwch tân yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Gwelsom fod y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei brofi bob wythnos, bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod asesiad risg tân ar waith. Roedd y darparwr wedi contractio cwmni i asesu iechyd a diogelwch yn y cartref yn flynyddol, ac roedd yn ymweld â'r cartref i gynnal asesiad tra roeddem ni yn arolygu gwasanaeth arall. Roedd gwahanol restrau gwirio wedi cael eu darparu i'r staff eu cwblhau, gan gynnwys gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol, wythnosol a misol ar gyfer y lleoliad. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cofnodion hyn wedi cael eu cwblhau yn gyson. Gwelsom fod rhai o'r gwiriadau wedi cael eu cofnodi ddwywaith ar y ffurflenni. Byddai'n fuddiol adolygu'r system er mwyn sicrhau bod y staff yn glir ynghylch pa wiriadau amgylcheddol sydd eu hangen a phryd. Roedd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel, ac nid oedd ymwelwyr â'r cartref yn gallu dod i mewn heb wiriadau adnabod. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd lle y caiff risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch eu nodi ond lle na chânt eu cofnodi yn gyson.

4. Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae'r gwasanaeth yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Roedd y datganiad o ddiben yn amlinellu ethos, nodau ac amcanion y gwasanaeth, ac yn darparu gwybodaeth am gyflenwi'r gwasanaeth. Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael gofal yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth. Roedd 'Canllaw i'r Cartref' wedi cael ei gynhyrchu ac roedd hwn ar gael ar ffeiliau unigol. Fodd bynnag, nid oedd hwn mewn fformat a oedd yn addas ar gyfer gofynion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth, ond rydym yn argymhell y dylid adolygu'r ddogfen hon gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod mewn fformat priodol ar eu cyfer.

Ar y cyfan, roedd y lefelau staffio yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi'n briodol. Gwelsom rota'r staff, a oedd yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi'n unigol ar y cyfan; roedd y lefelau staffio yn adlewyrchu hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, ar un achlysur, gwelsom na chafodd un person ei ofal dynodedig ar fore ym mis Ionawr 2020. Gwelsom nad oedd dyddiaduron wedi cael eu cwblhau bob amser, a gwelsom nad oedd rhai o'r dyddiaduron yn cynnwys digon o wybodaeth. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y bobl roeddent yn eu cefnogi. Ar y cyfan, mae gan y gwasanaeth nifer priodol o staff addas i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol, ond mae angen goruchwyliaeth er mwyn sicrhau bod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cartref o ddydd i ddydd yn ddigon cadarn. Nid oedd rheolwr wedi'i gyflogi, ac roedd y trefniadau cyflenwi wrth ddisgwyl i reolwr parhaol newydd gael ei benodi yn annigonol. Er y cawsom wybod bod modd cysylltu â'r rheolwyr o gartrefi gofal eraill a ddarperir gan Prestwood Residential Care Ltd, a'u bod yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, nid oedd yn amlwg bod y staff a oedd yn gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i'r unigolion wedi cael eu cefnogi yn gywir o ran goruchwyliaeth. Ni welsom dystiolaeth fod y staff wedi cael eu goruchwyllo yn unol â'r rheoliadau. Nid oedd cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal ers i'r rheolwr blaenorol adael. Gwelsom nad oedd y cofnodion wedi cael eu cwblhau a bod systemau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel yn anfoddhaol. Ni all y bobl fod yn sicr bod y trefniadau rheoli yn sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn dda a bod y staff yn cael eu cefnogi'n briodol.

Roedd systemau i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn annigonol. Er bod trefniadau dros dro wedi cael eu gwneud i'r rheolwyr oruchwyllo'r gwasanaeth a chefnogi'r staff, nid oedd hyn wedi bod yn effeithiol ar y cyfan o ran sicrhau bod safonau sicrhau ansawdd yn cael eu cyflawni. Roedd y sefydliad yn gweithredu system sicrhau ansawdd haenog, gyda rheolwr y cartref, a oedd wedi gadael ym mis Gorffennaf 2019, yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr ardal a thîm ansawdd y sefydliad yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir. Darparodd yr unigolyn

cyfrifol ddogfennaeth i ddangos tystiolaeth ei bod wedi ymweld â'r gwasanaeth i gwrdd â'r unigolion a'r staff a darllen a gwirio cofnodion ym mis Awst 2019. Roedd adroddiad yr unigolyn cyfrifol wedi nodi problemau a materion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau, a gwelwyd y diffygion a nodwyd yn yr adroddiad yn yr arolygiad hwn hefyd. Roedd hyn yn dangos lle y nodwyd camau gweithredu, nad oeddent wedi cael eu cynnal yn effeithiol. Er bod adroddiad yr unigolyn cyfrifol yn cyfeirio at drafodaethau â rhai o'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff yn ystod eu hymweliadau, ni welsom fod barn y bobl wedi cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol adolygu ansawdd y gofal y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu pob chwe mis a llunio adroddiad. Roedd disgwyl i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2019, ond ni welsom dystiolaeth bod hyn wedi digwydd. Mae angen rhoi sylw i ddulliau sicrhau ansawdd er mwyn dangos ymrwymiad i wella'n barhaus er budd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yr arolygiad hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn

Rheoliad 67 – Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi penodi rheolwr i reoli'r gwasanaeth.

Nodir manylion y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr hysbysiadau diffyg cydymffurfio atodedig.

Rydym hefyd wedi hysbysu'r person cofrestredig bod angen gweithredu mewn perthynas â'r rheoliadau canlynol er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn:

Rheoliad 16 – Rhaid i'r cynllun personol gael ei adolygu fel sy'n ofynnol, a phan fo'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis.

Rheoliad 17 – Mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gadw cofnod o'r cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig a chanlyniad unrhyw adolygiad, a rhoi copi o'r cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig i'r unigolyn mewn iaith a fformat sy'n addas ar gyfer anghenion y person.

Rheoliad 19 – Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi paratoi canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth mewn fformat priodol ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref.

Rheoliad 36 – Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael ei oruchwyllo a'i arfarnu'n briodol.

Rheoliad 38 – Dylid cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn), a dylai'r materion a drafodir gael eu cofnodi a chymau priodol gael eu cymryd yn eu sgil.

Rheoliad 58 – Mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth roi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rhoi yn ddiogel.

Rheoliad 59 – Nid oedd darparwr y gwasanaeth wedi cynnal a chadw cofnodion dyddiol cywir yn gyson yn ôl y gofyn.

Rheoliad 80 – Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ddarparu adroddiad o'i adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth i ddarparwr y gwasanaeth.

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio y tro hwn gan fod yr unigolyn cyfrifol wedi ymrwmo i gymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Adolygu'r ddogfennaeth ar gyfer gwiriadau iechyd a diogelwch ar gyfer y cartref.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, a gynhaliwyd yn gynharach na'r dyddiad a drefnwyd gan fod y gwasanaeth wedi bod heb reolwr ers mis Gorffennaf 2019. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 16 Ionawr 2020 rhwng 9.15 a.m. a 4.30 p.m.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr arolygiad yn cynnwys:

- Trafodaethau ag aelod o'r staff ar ddyletswydd.
- Trafodaethau â rheolwr un o wasanaethau eraill Prestwood Residential Homes Ltd a oedd wedi bod yn darparu cymorth i'r cartref.
- Arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y bobl a'r aelod o staff.
- Archwiliad gweledol o'r cartref.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion, gan gynnwys:

- Y datganiad o ddiben.
- Y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Cofnodion yn ymwneud ag un person, gan gynnwys dogfennau cynllunio gofal, asesiadau risg a chofnodion cysylltiedig.
- Cofnodion yn ymwneud â recriwtio staff.
- Cofnodion goruchwyllo.
- Rotas staff.
- Cofnodion hyfforddiant y staff
- Cofnodion sicrhau ansawdd
- Y polisi cwyno.

Gwnaethom ystyried pryder a ddaeth i law AGC cyn yr arolygiad. Roedd y pryder a godwyd mewn perthynas â'r canlynol:

- Nifer bach o aelodau o staff parhaol ar gael sy'n golygu bod angen defnyddio staff asiantaeth, ac effaith hyn ar ddefnyddwyr y gwasanaeth yw diffyg gofal cyson.
- Peidio â rhoi meddyginiaeth pan fo ei hangen.
- Diffyg cymorth rheoli.

Gwelsom nad oedd gan un person gymorth staff un bore yn ystod mis Ionawr 2020. Fodd bynnag, gwelsom fod problemau staffio wedi cael eu datrys ar y cyfan a bod y person a oedd yn cael gofal yn cael ei gefnogi gan dîm o staff parhaol. Gwelsom un camgymeriad o ran meddyginiaeth a oedd yn ymwneud â'r person a oedd yn byw yn y cartref; roedd y staff wedi diwygio cofnod meddyginiaeth â llaw yn hytrach na defnyddio ffurflen wedi'i diweddarau gan y fferyllfa, ac roedd y staff yn dal i ddefnyddio'r feddyginiaeth gyda'r dos blaenorol ar y botel. Hefyd, nid oedd y staff wedi cael sesiynau goruchwyllo un i un na'r cyfle i fynychu cyfarfodydd tîm i drafod anghenion y bobl a materion o ran ymarfer mewn fforwm ffurfiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal
Darparwr y Gwasanaeth	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Unigolyn Cyfrifol	Charlotte Smith
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	2
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	26/02/2019 a 27/02/2019
Dyddiad yr ymweliad Arolygu hwn	16/01/2020
Iaith weithredol y gwasanaeth	Saesneg
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Dyddiad Cyhoeddi 28/07/2020